Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 2
Welsh in Professional Practice 2
2024-25

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

RHAGOR iaith
Peniarth .cymru
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

BA2 - Darlith 11

Enwau a Rhifau

mari.powell@uwtsd.ac.uk

Nod ac Amcanion

Aims and Objectives

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

- Mae hi'n amser cofrestru!
- Adolygu
- Enwau a Rhifau

Mae hi'n amser cofrestru!

It's registration time!

Mae hi'n amser cofrestru!

Edrychwch arna i!

Look at me!

Eisteddwch, bawb!

Sit down, everyone!

Gwrandewch yn ofalus, blant!

Listen carefully, children!

Mae hi'n amser cofrestru!

Bore da, bawb!

Mae hi'n amser cofrestru!

Prynhawn da, blant!

Pwy sy'n barod?!

Mae hi'n amser cofrestru!

Ydy ... yma heddiw?
Is ... here today?

Sut wyt ti heddiw?

Yma!
Here!

Absennol!
Absent!

Mae hi'n amser cofrestru!

Pwy sy'n absennol heddiw?

Lois **sy'n absennol heddiw!**

Mae hi'n amser cofrestru!

Mae hi'n amser cofrestru!

Faint sy'n cael brechdanau heddiw?

Pump **sy'n cael brechdanau heddiw.**

Pa ddydd ydy hi heddiw?

Dydd Iau

ydy hi heddiw.

'**Ydy**' yn y cwestiwn = '**Ydy**' / '**Nac ydy**' yn yr ateb

Ydy hi'n ddydd Iau heddiw?

✓ **Ydy**, mae hi'n ddydd Iau heddiw.

✗ **Nac ydy**, dydy hi ddim yn ddydd Iau heddiw.

Pa fis ydy hi?

Mis **Tachwedd** ydy hi.

'**Ydy**' yn y cwestiwn = '**Ydy**' / '**Nac ydy**' yn yr ateb

Ydy hi'n **f**is Mawrth?

Ydy, mae hi'n **f**is Mawrth.

Nac ydy, dydy hi ddim yn **f**is Mawrth.

Pa dymor ydy hi?

Yr Hydref ydy hi.

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Dydd Sul
Dydd Llun
Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn

Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr

				1af y cyntaf	**2il** yr ail	**3ydd** y trydydd
4ydd y pedwerydd	**5ed** y pumed	**6ed** y chweched	**7fed** y seithfed	**8fed** yr wythfed	**9fed** y nawfed	**10fed** y degfed
11eg yr unfed ar ddeg	**12fed** y deuddegfed	**13eg** y trydydd ar ddeg	**14eg** y pedwerydd ar ddeg	**15fed** y pymthegfed	**16eg** yr unfed ar bymtheg	**17eg** yr ail ar bymtheg
18fed y deunawfed	**19eg** y pedwerydd ar bymtheg	**20fed** yr ugeinfed	**21ain** yr unfed ar hugain	**22ain** yr ail ar hugain	**23ain** y trydydd ar hugain	**24ain** y pedwerydd ar hugain
25ain y pumed ar hugain	**26ain** y chweched ar hugain	**27ain** y seithfed ar hugain	**28ain** yr wythfed ar hugain	**29ain** y nawfed ar hugain	**30ain** y degfed ar hugain	**31ain** yr unfed ar ddeg ar hugain

Dydd Iau, Mawrth yr ugeinfed.

Trafod y tywydd... *Discussing the weather...*

Sut **mae**'r tywydd heddiw?
Mae hi'n <u>w</u>yntog.

← **Amser Presennol** *Present Tense*

Sut **oedd** y tywydd ddoe?
Roedd hi'n braf.

← **Amser Gorffennol** *Past tense*

Sut **bydd** y tywydd yfory?
Bydd hi'n heulog.

← **Amser Dyfodol** *FutureTense*

Mae hi'n amser cofrestru!

1. *Greet the class*
2. *It's registration time!*
3. *Is ..... here today?*
4. *How are you?*
5. *The Date*
6. *The Weather (today, yesterday, tomorrow)*
7. *Likes / Dislikes*

Rhif	Pwy?
1	Amy
2	Jacob
3	Zoe
4	Lara
5	Hannah
6	Polly
7	Dominic
8	Emily
9	Josh
10	Marli
11	Storm
12	Amelia
13	Tilly
14	Kelly
15	Hazel
16	Beau

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Mae hi'n amser adolygu!

It's time to revise!

Gofyn cwestiynau *Asking questions*

Fi *(me)*	**Fe** *(him)*	**Hi** *(her)*
Beth ydy **dy** enw?	Beth ydy **ei** enw?	Beth ydy **ei h**enw?
Pryd mae **dy** ben-blwydd?	Pryd mae **ei** ben-blwydd?	Pryd mae **ei ph**en-blwydd?
Pwy wyt **ti**?	Pwy ydy **e**?	Pwy ydy **hi**?
Ble **rwyt ti'**n byw?	Ble **mae e'**n byw?	Ble **mae hi'**n byw?
Faint ydy **dy** oed?	Faint ydy **ei** oed?	Faint ydy **ei h**oed?
Beth **rwyt ti'**n hoffi ...?	Beth **mae e'**n hoffi ...?	Beth **mae hi'**n hoffi?
Beth **dwyt ti ddim** yn hoffi?	Beth **dydy e ddim** yn hoffi?	Beth **dydy hi ddim** yn hoffi?
Oes ... gyda **ti**?	Oes ... gyda **fe**?	Oes ... gyda **hi**?



Gofyn ac ateb cwestiynau *Asking and answering questions*

Cwestiwn	Ateb
Beth ydy **ei** enw?	**Ei** enw ydy.....
Pryd mae **ei** ben-blwydd?	Mae **ei** ben-blwydd ym mis .....
Pwy ydy **e**?	..... ydy **e.**
Ble **mae e**’n byw?	**Mae e**’n byw .....
Faint ydy **ei** oed?	**Mae e'n** ..... oed.
Beth ydy **ei** hobi?	**Ei** hobi ydy.....
Beth **mae e**’n hoffi ...?	**Mae e**’n hoffi .....
Beth **dydy e ddim** yn hoffi?	**Dydy e ddim** yn hoffi .....
Oes ... gyda **fe**?	Oes, mae..... gyda **fe**. Nac oes, does dim ..... gyda **fe**.

Gofyn ac ateb cwestiynau *Asking and answering questions*

Cwestiwn	Ateb
Beth ydy **ei h**enw?	**Ei h**enw ydy.....
Pryd mae **ei ph**en-blwydd?	Mae **ei ph**en-blwydd ym mis .....
Pwy ydy **hi**?	..... ydy **hi**.
Ble **mae hi**'n byw?	**Mae hi**'n byw .....
Faint ydy **ei h**oed?	**Mae hi'n** ..... oed.
Beth ydy **ei** hobi?	**Ei** hobi ydy.....
Beth **mae hi**'n hoffi...?	**Mae hi**'n hoffi .....
Beth **dydy hi ddim** yn hoffi?	**Dydy hi ddim** yn hoffi .....
Oes ... gyda **hi**?	Oes, mae..... gyda **hi**. Nac oes, does dim ..... gyda **hi**.



Dyma fe

- **Darllenwch y testun**
- **Atebwch y cwestiynau mewn brawddegau llawn**

Dyma Rhys Williams. Mae e'n un ar ddeg oed ac mae e'n dathlu ei ben-blwydd ar ddydd Nadolig. Mae e'n byw ar fferm. Mae e'n byw yn Llanbed. Mae e'n byw gyda'i rieni – Meinir a John. Mae dau frawd gyda fe o'r enw Cai a Jac. Mae Cai yn wyth oed. Mae Jac yn chwech oed. Does dim chwaer gyda fe. Mae e'n hoffi gwersi Mathemateg a Saesneg. Mae e'n hoffi helpu ar y fferm. Mae e'n hoffi cinio rhost bob dydd Sul. Ei hobïau ydy chwarae rygbi, rhedeg a darllen.



1. Beth ydy ei enw e?
2. Faint ydy ei oed?
3. Pryd mae e'n dathlu ei ben-blwydd?
4. Ble mae e'n byw?
5. Oes brawd gyda fe?
6. Oes chwaer gyda fe?
7. Ydy e'n hoffi gwersi Saesneg?
8. Beth ydy ei hobïau?

Dyma hi

- **Darllenwch y testun**
- **Atebwch y cwestiynau mewn brawddegau llawn**

Dyma Megan Huws. Mae hi'n wyth oed. Mae hi'n dathlu ei phen-blwydd ar yr ugeinfed o Dachwedd. Mae hi'n byw mewn fflat yng Nghaerdydd. Mae hi'n hoffi byw yn y ddinas. Mae hi'n byw gyda'i Mam, Mam-gu a'i chwaer fach. Mae Nel yn bedair oed. Does dim brawd gyda hi. Mae hi'n hoffi gwersi Cymraeg, Hanes ac Ymarfer Corff. Mae hi'n hoffi bwyta pitsa a salad. Mae hi'n hoffi mynd i Pizza Express gyda Mam- gu. Mae hi'n hoffi canu a dawnsio.

1. Beth ydy ei henw hi?
2. Ydy hi'n ddeg oed?
3. Pryd mae hi'n dathlu ei phen-blwydd?
4. Ble mae hi'n byw?
5. Oes brawd gyda hi?
6. Oes chwaer gyda hi?
7. Pa wersi mae hi'n hoffi?
8. Beth ydy ei hobïau?

Enwau a Rhifau

Nouns and Numbers

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Tabl Treiglo	Meddal	Trwynol	Llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	/	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		

Rhifau *Numbers*

0	1	2	3	4	5
dim	un	dau	tri	pedwar	pump

6	7	8	9	10
chwech	saith	wyth	naw	deg

Mwy o rifau ...

11	un deg un
12	un deg dau
13	un deg tri
14	un deg pedwar
15	un deg pump
16	un deg chwech
17	un deg saith
18	un deg wyth
19	un deg naw
20	dau **dd**eg

30	tri deg
40	pedwar deg
50	pum deg
60	chwe deg
70	saith deg
80	wyth deg
90	naw deg
33	tri deg tri
46	pedwar deg chwech
59	pum deg naw

100	cant
200	dau **g**ant
300	tri **ch**ant
400	pedwar cant
500	pum cant
600	chwe **ch**ant
700	saith cant
800	wyth cant
900	naw cant
1000	mil

Caneuon Rhif!

Un bys, dau fys:
https://youtu.be/wkUAZgEnh5c?feature=shared

Clap, clap, 1,2,3:
https://youtu.be/JhxD1fXFx0c?feature=shared

Clap, clap, 1,2,3:
https://youtu.be/GIYDTyp1-e4?feature=shared

5 crocodeil:
https://youtu.be/_NtlwwGlUFI?feature=shared

Cân rhif Cyw:
https://youtu.be/4DleEElpjmo?feature=shared

Pa rif ...?

8

7

2

3

6

9

4

10

Pa rif ...?

18

57

15

43

77

97

84

68

Benywaidd / Gwrywaidd

Yn y Gymraeg, mae enwau'n gallu bod yn:

- **fenywaidd, e.e. merch, ysgol**
- **wrywaidd, e.e. bachgen, disgybl**
- **lluosog, e.e. plant, llyfrau**

In Welsh nouns can be:

- *feminine, e.g. merch, ysgol*
- *masculine, e.g. bachgen, disgybl*
- *plural, e.g. plant, llyfrau*

Rhifau Benywaidd

Three numbers have feminine forms **yn Gymraeg**:

2	**dwy**
3	**tair**
4	**pedair**

*Yn Gymraeg, some numbers have a masculine **and** a feminine version.*

Gwrywaidd *Masculine*	**Benywaidd** *Feminine*
un	un
dau	**dwy**
tri	**tair**
pedwar	**pedair**
pump	
chwech	
saith	
wyth	
naw	
deg	

Un 1

un + enw gwrywaidd + DIM treiglad	
ci	un ci
bachgen	un bachgen
disgybl	un disgybl
plentyn	un plentyn
tabl	un tabl

un + enw benywaidd + treiglad meddal (p, t, c, b, d, g, ll, m, rh)	
cath	un **g**ath
merch	un **f**erch
cadair	un **g**adair
llaw	un _**l**aw
taflen	un **d**aflen

Un 1

Rhowch 'un' o flaen y geiriau hyn:



un fuwch

un gath

un seren

un ddoli

un bêl

un car

un ddafad

Rhifau + Enw Unigol

Yn Gymraeg, numbers are followed by a **singular noun** (not plural as in English), e.g.

dau eliffant	*two elephants*
dau afal	*two apples*
dwy hosan	*two socks*
dwy siop	*two shops*

Dau / Dwy 2

dau + enw gwrywaidd + treiglad meddal (p, t, c, b, d, g, ll, m, rh)	
bachgen	dau **f**achgen
doli	dau **dd**oli
plentyn	dau **b**lentyn
ci	dau **g**i

dwy + enw benywaidd + treiglad meddal (p, t, c, b, d, g, ll, m, rh)	
merch	dwy **f**erch
cadair	dwy **g**adair
pêl	dwy **b**êl
cath	dwy **g**ath

Dau / Dwy 2

Rhowch ‘2’ o flaen y geiriau hyn:

dwy ferch

dwy goeden

dwy gath

dwy bêl

dau gar

dau fachgen

Tri / Tair 3

tri + enw gwrywaidd + treiglad llaes (p, t, c)	
plentyn	tri **ph**lentyn
tabl	tri **th**abl
cerdyn	tri **ch**erdyn
ci	tri **ch**i

tair + enw benywaidd + DIM treiglad	
merch	tair merch
cadair	tair cadair
pêl	tair pêl
cath	tair cath

Tri / Tair 3

Rhowch '3' o flaen y geiriau hyn:

tair coeden

tair cath

tair pêl

tri **char**

tair merch

tri bachgen

Pedwar / Pedair 4

pedwar + enw gwrywaidd + DIM treiglad	
plentyn	pedwar plentyn
tabl	pedwar tabl
cerdyn	pedwar cerdyn
ci	pedwar ci

pedair + enw benywaidd + DIM treiglad	
merch	pedair merch
cadair	pedair cadair
pêl	pedair pêl
cath	pedair cath

Pedwar / Pedair 4

Rhowch '4' o flaen y geiriau hyn:

pedair merch

pedair coeden

pedair cath

pedair pêl

pedwar car

pedwar bachgen

Help Llaw! *A Helping Hand!*

Gwrywaidd *Masculine*	**Benywaidd** *Feminine*
1 **un + DIM treiglad**	1 **un + treiglad meddal**
2 **dau + treiglad meddal**	2 **dwy + treiglad meddal**
3 **tri + treiglad llaes**	3 **tair + DIM treiglad**
4 **pedwar + DIM treiglad**	4 **pedair + DIM treiglad**

ci

tri chi

dau gi

pedwar ci

cath

tair cath

dwy gath



pedair cath

Rhifo

Rhif	Gwrywaidd	Benywaidd
1	un	un
	un bachgen	un **f**erch
2	dau	dwy
	dau **f**achgen	dwy **f**erch
3	tri	tair
	tri bachgen	tair merch
	tri **ph**lentyn	
4	pedwar	pedair
	pedwar bachgen	pedair merch
5	pump	
6	chwech	
	chwe **ph**lentyn	
7	saith	
8	wyth	
9	naw	
10	deg	

11	un deg un	66	chwe deg chwech
22	dau **dd**eg dau	77	saith deg saith
33	tri deg tri	88	wyth deg wyth
44	pedwar deg pedwar	99	naw deg naw
55	pum deg pump	100	cant

Counting

Un, dau *and* **dwy** *cause a* *soft mutation*.

Tri *and* **chwe** *cause an* *aspirate mutation*.

Numbers are followed by singular nouns,
e.g. deg llyfr, tri deg punt

- pump *and* chwech *are shortened to* pum *and* chwe *in front of a noun or number,*
  e.g. pum merch, chwe bachgen
- cant *is shortened to* can *when followed by another word,*
  e.g. can punt.

Enw	Gwr / Ben?	1	2	3	4
	gwrywaidd	un ci			
				tri cheffyl	
					pedwar llyfr
		un ddafad			
llygoden					
					pedwar tedi
papur					
			dwy seren		
cadair					
	benywaidd			tair cath	
		un bwrdd			
teledu					
			dau gar		

Sawl? / Faint o? *How many?*

Sawl?

We use '**sawl**' with the singular, e.g.

Sawl **plentyn** sy yn y dosbarth?

Faint o?

We use '**faint + o**' with the plural, e.g.

Faint o **blant** sy yn y dosbarth?

Sawl + enw unigol *(singular noun)*

Sawl	**llyfr**	sy	ar y	silff?
	pensil			bwrdd?
	llun			wal?
	afal		yn y	**f**asged?
	cyfrifiannell		yn y	drôr?

Faint o + treiglad meddal + enw unigol *(plural noun)*

Faint o	**lyfrau**	sy	ar y	silff?
	bensiliau			bwrdd?
	luniau			wal?
	afalau		yn y	fasged?
	gyfrifianellau		yn y	drôr?

Sawl merch?

Faint o ferched?

Pedair

Sawl tedi?

Tri

Faint o dedis?

Tri

Sawl cath?

Dwy

Faint o gathod?

Dwy

Sawl bloc?



Pedwar

Faint o flociau?



Pedwar

Sawl ci?

Tri

Faint o gŵn?

Tri

Sawl seren?

Tair

Faint o sêr?

Sawl afal sy yma?



Pedwar

Faint o afalau sy yma?



Pedwar

Sgwrs *A Conversation*

Arweinydd: **Prynhawn da!**
Pawb: **Prynhawn da Miss Morgan!**
Arweinydd: **Sut mae'r tywydd heddiw Cai?**
Cai: **Mae hi'n bwrw glaw.**
Arweinydd: **Ardderchog Cai! Mae hi'n bwrw glaw. Dewch i edrych ar y llun. Sawl mochyn sy yma?**
Elen: **Tri?**
Arweinydd: **Arbennig Elen. Tri mochyn. Sawl dafad sy yma Gareth?**
Gareth: **Ymm … dau?**
Arweinydd: **Bron â bod – dwy ddafad. Da iawn chi! Mae hi'n amser snac nawr. Eisteddwch yn daclus bawb!**

Tasg – Llyfr Bwrdd

- Beth ydy hwn / hon?
- Ble mae'r ...?
- Pa liw ...?
- Sawl ...? / Faint o ...?
- Pwy sy’n ...?
- Beth sy’n ...?
- Ydy'r ...?
- Oes ...?
- Dyma ...

Geirfa *Vocabulary*

adio

to add

Geirfa *Vocabulary*



tynnu

to subtract

Geirfa *Vocabulary*

lluosi

to multiply

Geirfa *Vocabulary*



rhannu

to divide

Faint ydy ...? *How much is ...?*

Faint ydy dau adio pump?	Saith.
Faint ydy tri adio tri?	Chwech.
Faint ydy tri tynnu un?	Dau.
Faint ydy naw tynnu chwech?	Tri.
Faint ydy pedwar lluosi gyda chwech?	Dau ddeg pedwar.
Faint ydy dau ddeg rhannu gyda dau?	Deg.

Faint ydy ..... adio .....?

$6 + 7 =$

$24 + 22 =$

Faint ydy ….. tynnu …..?

10 - 6 =

48 - 12 =

Faint ydy ..... lluosi gyda .....?

5 x 5 =

10 x 8 =

Faint ydy ..... rhannu gyda .....?

$6 \div 2 =$

$60 \div 6 =$

Y Cyfnod Sylfaen:

Rhif

Rhifau

un	1
dau	2
tri	3
pedwar	4
pump	5
chwech	6
saith	7
wyth	8
naw	9
deg	10
un deg un	11
un deg dau	12
un deg tri	13
un deg pedwar	14
un deg pump	15
un deg chwech	16
un deg saith	17
un deg wyth	18
un deg naw	19
dau ddeg	20
dau ddeg un	21
tri deg	30
pedwar deg	40
pum deg	50
chwe deg	60
saith deg	70
wyth deg	80
naw deg	90
cant	100
mil	1000
miliwn	1000000

Paratoi	*Preparation*
Wyt ti eisiau chwarae loto rhif?	*Do you want to play number lotto?*
Pwy sy eisiau chwarae bingo?	*Who wants to play bingo?*

Offer	*Equipment*
Ble mae'r sgwâr cant?	*Where's the hundred square?*
Oes cownteri yn y bocs?	*Are there any counters in the box?*

Iaith chwarae	*Language of play*
Pa rif ydy hwn?	*What number is this?*
Pa rif sy nesa?	*What number is next?*
Beth sy nesa?	*What's next?*
Pa rif sy'n dod ar ôl dau?	*What number comes after two?*
Sawl pensil sy ar y bwrdd?	*How many pencils are there on the table?*
Beth ydy dau a dau?	*How much is two and two?*
Beth ydy pedwar adio tri?	*How much is four add three?*
Beth ydy deg tynnu wyth?	*How much is ten take away eight?*
Beth ydy hanner pedwar?	*How much is half of four?*
Faint o flociau?	*How many blocks?*
Cyfrwch 'da fi / efo fi.	*Count with me.*
Sawl digid?	*How many digits?*
Faint yn fwy na dau ydy pedwar?	*How many more than two is four?*

Geirfa	*Vocabulary*
cownter (g) / i	*counter / s*
chwarter	*a quarter*
digid (g) / au	*digit / s*
hanner	*half*
nesa	*next*
ar ôl	*after*
cyn	*before*
llai	*less*
lleiaf	*least*
mwy	*more*
mwyaf	*most*

Berfau	*Verbs*
adio	*to add*
lluosi	*to multiply*
rhannu	*to share / divide*
tynnu	*to subtract*

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

Y Cyfnod Sylfaen: Rhif

Cân Tôn: (*Ten green bottles*)
Pump mochyn bach yn rowlio yn y mwd,
Pump mochyn bach yn rowlio yn y mwd,
Aeth un mochyn bach i 'molchi yn y twb,
Dim ond pedwar mochyn bach yn rowlio yn y mwd.

Pedwar mochyn bach yn rowlio yn y mwd
Tri ....
Dau ....
Un ....
Dim un mochyn bach yn rowlio yn y mwd.

Sgwrs 1

Oedolyn	Faint ydy dau adio dau?
Plentyn	Pedwar.
Oedolyn	Da iawn. Faint ydy hanner wyth?
Plentyn	Pedwar.
Oedolyn	Da iawn. Faint ydy chwarter wyth?
Plentyn	Dau.
Oedolyn	Faint ydy dau tynnu dau?
Plentyn	Dim!
Oedolyn	Ardderchog, blant.

How many?
Sawl + singular noun,
e.g. Sawl bloc?

Faint o + plural noun
+ soft mutation, **e.g.**
Faint o flociau?

Tôn: (Gweler **Mi Welais Jac y Do, Gwasg Gomer**)
Un bys i fyny, un bys i lawr,
Un bys i fyny, un bys i lawr.

Dau fys ...
Tri bys ....

Sgwrs 2

Oedolyn	Sali, sawl car glas sy ar y bwrdd?
Plentyn	Un, dau, tri, pedwar.
Oedolyn	Da iawn – pedwar car glas. Rho'r ceir glas yn y cylch. Da iawn. Wil, sawl car melyn sy ar y bwrdd?
Plentyn	Un, dau, tri, pedwar, pump.
Oedolyn	Da iawn. Mae pum car melyn ar y bwrdd. Nawr, rho'r ceir melyn yn y cylch. Sawl car sy yn y cylch nawr?
Plant	Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw.
Oedolyn	Da iawn. Mae naw car yn y cylch. Gwen, tynna un car i ffwrdd. Faint o geir sy yn y cylch nawr?
Plentyn	Un , dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth.
Oedolyn	Ie, da iawn, blant.

Tôn: (*Bobby Shaftoe*)

Un a dau a tri banana
4 a 5 a 6 banana
7 a 8 a 9 banana
10 banana melyn.

Sawl un? *How many?*

Sawl un sy yma?

Sawl un sy 'da ti / gen ti nawr?

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

Da iawn, bawb!

Hwyl fawr!